Cofnodion – Nos Iau 26ain o Fedi 2024

**YN BRESENNOL**: Silyn Roberts (Cadeirydd) Gareth Ioan, Meleri Richards, Mel Jones a Gill Hearne.

(7.30 y.h. – 8.40 y.h.)

27 **Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorydd Matthew Vaux

28 **Datgelu Buddiannau Personol/Buddiannau sy'n Rhagfarnu**

29 **Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 25ain o Orffennaf**

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a chynhaliwyd ar y 25ain o Orffennaf yn gofnod cywir.

30 **Materion yn codi**

119.02 Prosiect blodau Cyngor Cymuned

Diolch i'r Cynghorydd Meleri Richards am gwblhau'r ffurflenni ar ran y Cyngor Cymuned. Cyflwynodd y Clerc y ffurflenni ar y 31ain o Orffennaf I'R Cyngor Sir trwy Clic - hyd yma ni dderbynniwyd ymateb.

23.02 Torri porfa Bro Hafan

Anfonwyd ebost trwy Clic ar diwedd mis Awst yn gofyn am cadarnhad pryd bydd y Cyngor Sir yn torri'r porfa gan fod y Cyngh Vaux wedi derbyn wybodaeth bydd y Sir yn torri'r porfa unwaith y flwyddyn. Nid yw'r Clerc wedi derbyn unrhyw ymateb hyd yma.

Yn dilyn trafodaethau ynghylch diffyg gohebiaeth gan y Cyngor Sir yn dilyn cyflwyno ymholiadau drwy Clic.Cytunwyd i lenwi'r ffurflen gwynion fel y gwelir ar wefan y Cyngor Sir. Mae materion cyfredol heb ymateb megis torri glaswellt, torri llwybrau cyhoeddus, cais i gosod gwrthrychau ar ochr y prif ffordd ac ymholiadau i adran gorfodi cynllunio i enwi ond ychydig dal ar agor.

Cynghorwyd y Clerc i greu Fy Nghyfrif ar gyfer y Cyngor Cymuned yn ôl ym mis Hydref 2023 ond cafwyd problemau gyda hyn a rhoddwyd gwybod i Uwch Swyddog ar y pryd am hyn.

23.08 4 Llan

Yn dilyn cyfarfod nos Lun - bydd sesiynau gwybodaeth yn cael eu cynnal yn y dyfodol agos. Mae'r bwrdd bellach wedi'i gofrestru'n swyddogol fel ymddiriedolaeth tir cymunedol.

Minutes - Thursday the 26th of September 2024

**PRESENT**: Silyn Roberts (Chair) Gareth Ioan and Meleri Richards, Mel Jones And Gill Hearne

(7.30 pm. – 8.40 p.m.)

27 **Apologies**

Councillor Mathew Vaux had sent his apologies as he was unable to attend the meeting.

28 **Disclosures of Personal / Prejudicial Interests**

29 **To confirm the minutes of the meeting held on 25th of July**

The minutes of the meeting held on 25th of July were confirmed as a true record.

30 **Matters arising**

119.02 Community Council flowers project

Thank you to Cllr Meleri Richards for completing the forms on behalf of the Community Council. The Clerk submitted the forms on the 31st of July to the County Council via Clic – to date there has been no response.

23.02 Bro Hafan grass cutting

An email was sent via Clic at the end of August asking for confirmation when the County Council will cut the grass as Cllr Vaux had received information from the County Council that they will cut the grass once a year. The Clerk has not yet received any response.

Following discussions regarding lack of correspondence from the County Council following submitting enquiries via Clic.it was agreed to complete the complaints form as seen on the County Council's website. Current outstanding issues such as grass cutting, public footpath trashing, locating planters on the roadside and enquiries to planning enforcement to name a few are outstanding.

The Clerk was advised to create a My Account for the Community Council back in October 2023 but experienced issues with this and feedback was reported to a Senior Officer.

23.08 4 Llan

Following a meeting on Monday night – information sessions will be held in the near future. The board is now officially registered as community land trust.

31 **Adroddiad Cynghorydd Sir**

Ddim yn bresennol.

32 **Cyllid**

Balans Agoriadol - £12,632.81

32.01 Cyflog Clerc Awst - £203.36
32.02 HMRC Awst - £50.60
32.03 Ffioedd Awdit Cymru - £220.00
32.04 Cyflog Clerc Medi - £203.36
32.05 HMRC Medi - £50.60
32.06 Cyngor Sir Ceredigion - £100.00 (rhent tir yn Bro Hafan)

**Balans wrth cau - £11,804.89**

Adolygiad Cyllid – **CYTUNWYD**

33 **Ceisiadau Cynllunio**

33.01 A240641 - Pencoed, Pentre’r Bryn, Llandysul. SA44 6NN

Dim gwrthwynebiad.

34 **Ceisiadau am gymorth ariannol**

Dim Ceisiadau.

35 Gohebiaeth

35.01 Opsiynau ar gyfer Darparu Toiledau Cyhoeddus Cei Bach

Yn dilyn gohebiaeth gan y Gwasanaethau Eiddo a oedd yn gofyn am benderfyniad ar ddyfodol y toiledau yng Nghei Bach erbyn y 6ed o Hydref, trafododd y Cynghorwyr yr e-bost a dderbyniwyd, a oedd ond â 3 opsiwn. Trafododd Cynghorwyr yr opsiynau yn helaeth a chytunwyd na fyddai'n cymryd cyfrifoldeb am y toiledau am y rhesymau canlynol;

- Rhy gostus i redeg

- Byddai'n golygu cynnydd serth yn nhreth y Cyngor a byddai'n ormod o faich ar dalwyr treth y Cyngor Cymuned.

- Mae dyfodol Cyngor Cymuned Llanllwchaearn yn ansicr oherwydd Adolygiad Cymunedol diweddar o Geredigion.

31 **County Councillor’s Report**

Not present.

32 **Finance**

Opening Balance – £12,632.81

32.01 Clerk Salary August – £203.36
32.02 HMRC August - £50.60
32.03 Audit Wales fees 22/23 - £220.00
32.04 Clerk Salary September – £203.36
32.05 HMRC September - £50.60
32.06Ceredigion County Council - £100.00 (Land rent at Bro Hafan)

**Closing balance - £11,804.89**

Review of Finances - **AGREED**

33 **Planning Applications**

33.01 A240641 - Pencoed, Pentre’r Bryn, Llandysul. SA44 6NN

No Objections.

34 **Request for financial assistance**

No requests.

35 Correspondence

35.01 Options for Provision of Cei Bach Public Toilets

Following correspondence from Property Services which required a decision on the future of the toilets in Cei Bach by the 6th of October, Councillors discussed the email received which only had 3 options. Councillors discussed the options at length and it was agreed that it would not take on responsibility of the toilets for the following reasons;

- Too costly to run
- It would mean a steep increase in Council tax and would be too much of a burden on the Community Council’s tax payers.
- The future of Llanllwchaearn Community Council is unsure due a recent Community Review of Ceredigion.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | 35.02 Hyfforddiant Cynghorwyr – Un Llais Cymru | | 35.02 One Voice Wales – Councillor training |
| | Nodwyd | | Noted |
| | 35.03 Llythyr Ymgynghori Cyngor Sir Ceredigion - Cynigion Llefydd Parcio Oddi ar y Stryd | | 35.03 Ceredigion County Council Consultation Letter - Off Street Parking Places Proposals |
| | Nodwyd | | Noted. |
| | 35.04 Lansiad ymgynghoriad - rôl, llywodraethiant ac atebolrwydd y sector cynghorau tref a chymuned | | 35.04 Launch of consultation - role, governance and accountability of the community and town council sector |
| | Bydd y Cynghorydd Gareth Ioan yn ysgrifennu ymateb ar ran y Cyngor Cymuned. | | Cllr Gareth Ioan will draft a response on behalf of the Community Council. |
| | 35.05 Darpariaeth Pryd ar Glud/Prydau wedi'u Paratoi yng Ngheredigion | | 35.05 Provision of Meals on Wheels/Ready Prepared Meals in Ceredigion |
| | Roedd y Clerc wedi rhannu'r arolwg hwn drwy e-bost, bydd y wybodaeth hefyd yn cael ei rhannu ar dudalen Facebook y Cyngolr Cymuned a phosteri yn y hysbysfyrddau. | | The Clerk had shared this survey via email, the information will also be shared on the Community Council's Facebook page and posters to be put the noticeboards. |
| | 35.06 Ymddiswyddiad Cyngh Euros Lloyd | | 35.06 Cllr Euros Lloyd resignation letter |
| | Derbyniodd y Clerc lythyr ymddiswyddo gan y Cynghorydd Lloyd cyn y cyfarfod. Cytunwyd anfon cerdyn o ddiolch iddo am ei wasanaeth i'r Cyngor Cymuned. Cytunwyd i greu hysbysiad cyfethol. Clerc i hysbysu gwasanaethau etholiadol. | | The Clerk received a resignation letter from Cllr Lloyd prior to the meeting. It was greed to send a card of thanks to him for his services to the Community Council. It was agreed to create a co-option notice. Clerk to inform electoral services. |
| 36 | **Materion i adrodd / digwyddiadau** | 36 | **Matters to report /events** |
| 37 | **Materion i'w drafod ar agenda cyfarfod nesaf** | 37 | **Matters to discuss on next month's agenda** |
| | Penodi Cadeirydd a Is-Gadeirydd | | Appoint Chair and Vice Chair |
| 38 | **Trefniadau'r Cyfarfod Nesaf** | 38 | **Arrangements for next meeting** |
| | Cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Iau 24ain o Hydref Neuadd Caerwedros / Zoom am 7.30pm. | | The next meeting will be held on Thursday 24th of October at Caerwedros Hall / Zoom at 7.30pm. |